



“Rydym yn Gwranddo”

2013/14

Deall, ac ymateb i, ddinasyddion

Cynnwys:

Galw Wreccsam	2
Ailffurfio Gwasanaethau / Ymgynghoriad ar y Gyllideb	2
Ailffurfio'r Grŵp Gwasanaethau	7
Llais y Bobl	8
Arolwg Tenantiaid 2013	10
Hyrwyddo Rhoi Gwybod am Drosedd Casineb	13
Cymunedau yn Gyntaf	13
Adolygu Ysgolion Canol y Dref	15
Ymgynghoriad Amddiffyn Plant y Bwrdd Diogelu Plant Lleol	16
Senedd Yr Ifanc	17
Ymgynghoriad Gofalwyr Ifanc	18
Asesiad Sylfaenol o Safon Byw	18
Contract Atborth Cwsmeriaid	19

Galw Wreccsam

Mae Galw Wreccsam yn wasanaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam. Yn Galw Wreccsam gallwch siarad ag Ymgynghorwyr Cwsmeriaid hyfforddedig am amryw o Wasanaethau'r Cyngor.

Yn dilyn atborth gan gwsmeriaid rydym wedi buddsoddi mewn gwelliannau i'n gwefan ac ar system ar-lein newydd. Bydd y system newydd yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau'r Cyngor ar-lein; megis ceisiadau am Fudd-dal Tai a Threth y Cyngor, darllen datganiadau treth y Cyngor a rhent tai ac er mwyn rhoi gwybod am newidiadau. Bydd y system ar waith ar ddiwedd 2014, a thros amser bydd yn cael ei ddatblygu er mwyn ychwanegu hyd yn oed mwy o wasanaethau'r Cyngor.

Mae Galw Wreccsam sef cyfleuster wyneb yn wyneb y Cyngor wedi ehangu ei wasanaethau. Bellach mae Galw Wreccsam yn darparu mynediad at wasanaethau Tai ac i'r Digartref ynghyd â'r gwasanaeth presennol. Rydym hefyd wedi gwella ein gwasanaethau ffôn, gan ddod â mwy o wasanaethau i'n canolfan gyswllt sengl.

Yn dilyn atborth gan ein cwsmeriaid rydym hefyd wedi gwneud nifer o newidiadau i'n gwasanaethau gan gynnwys ymestyn yr opsiwn i wneud apwyntiadau neilltuo o flaen llaw, gan alluogi i geisiadau am brydau bwyd ysgol am ddim, gwisg ysgol a derbyniadau i ysgolion gael eu gwneud dros y ffôn, a symleiddio'r broses Bathodyn Glas er mwyn lleihau'r angen i gwsmeriaid ymweld â'r swyddfa.

Ailffurfio Gwasanaethau / Ymgynghoriad ar Gyllideb

Mae'r Cyngor yn wynebu sialensiau ariannol difrifol yn y blynyddoedd nesaf wrth i'r Llywodraeth Ganolog leihau'r cyllid i gyrrff cyhoeddus yn sylweddol. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm diffyg cyllid i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf sydd o leiaf £45m. Er mwyn cwrdd â'r toriadau yn y gyllideb a rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo'r mwyaf bregus, mae'r Cyngor wedi rhoi rhaglen pum mlynedd i ailffurfio gwasanaethau ar waith. Mae'r Cyngor yn ymgynghori yn ystod y cyfnod o newid hwn er mwyn gwella

dealltwriaeth y cyhoedd o raddfa'r sialens, pam fod rhaid gwneud penderfyniadau anodd, ac er mwyn deall eu safbwyntiau ar y ffordd ymlaen.

Cyfnod 1 - Cynhaliwyd ymgynghoriad dechreuol gyda'r cyhoedd, staff a phartneriaid eraill i 'ddechrau'r trafod' er mwyn deall graddfa'r sialens a pham fod rhai gwneud penderfyniadau anodd; yn ogystal â deall safbwyntiau pwysig am wella affeithioldeb, lleihau gwariant a chynyddu incwm. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Mai a Mehefin 2013, a defnyddiwyd ymarferiad efelychu cyllideb o'r enw 'YouChoose'. Gofynnodd hwn i'r rhai a oedd yn cymryd rhan i gyrraedd y target arbedion o £34m drwy ddewis opsiynau i leihau gwariant, cynyddu incwm a gwneud arbedion effeithioldeb yn ogystal â chael awgrymiadau pellach i arbed arian. Roedd arolwg papur hefyd ar gael a chynhaliwyd grwpiau ffocws drwy Ffocws yr Ieuencid, y Fforwm Amrywiaeth a'r Fforwm Dros 50oed a Thenantiaid Tai Cymdeithasol er mwyn cwblhau'r ymarferiad.

Cyfnod 2 - Yn dilyn cyhoeddiadau gyllid Llywodraeth Cymru yn 2014/15 (Hydref 2013), bu i'r Cyngor baratoi pecyn o gynigion cyllido i gyrraedd y diffyg mewn cyllid. Cyflwynwyd crynodeb o'r rhain mewn llyfryn o'r enw 'Ail-lunio Gwasanaethau - Ymgynghoriad ar ein Cynigion i'r Gyllideb Ddrafft 2014/15'. Roedd y llyfryn hwn ar gael ar wefan y Cyngor a dosbarthwyd copïau papur i'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Llyfrgelloedd ledled y Fwrdeistref Sirol ac adeiladau pwysig y Cyngor megis y dderbynfa ddinesig. Gallai pobl gwblhau'r ffurflen atborth (ar-lein neu bapur) neu ysgrifennu atom drwy e-bost neu lythyr. Cynhaliwyd grwpiau ffocws hefyd gyda grŵp rheoli Senedd yr Ifanc y Cyngor ac mewn Clwbiau Ieuencid er mwyn cwblhau'r ymarferiad. Pan fo angen mae'r Cyngor hefyd wedi ymgynghori ar wahân ar rai cynigion a fyddai'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth penodol.

Roedd y ddau gyfnod ymgynghori yn agored i bawb a chawsant gyhoeddusrwydd eang ar wefan y Cyngor, gwefan Wreccsam Ifanc, y cyfryngau cymdeithasol, cylchgrawn y Cyngor, a'r cyfryngau lleol. Gwnaed staff ac aelodau yn ymwybodol o'r ymgynghoriad drwy'r fewnwyd, nodiadau cyfarwyddo mewnol, cylchlythyrau ac adroddiadau'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd anfonwyd yr ymgynghoriadau yn uniongyrchol at bob cymdeithas LSB, Cynghorau Tref a Chymuned, a phanel Dinasyddion y Cyngor. Targedwyd grwpiau cymunedol penodol megis Fforwm yr Ieuencid, y Fforwm Amrywiaeth a'r Fforwm Dros 50

oed a Thenantiaid Tai Cymdeithasol drwy grwpiau ffocws yn unol â'r manylion uchod. Bu i dros 300 o bobl gymryd rhan yng Nghyfnod 1 o'r ymgynghoriad a tua 700 yng Nghyfnod 2.

Yn gryno roedd y prif negeseuon o gyfnod 1 fel a ganlyn:

- Dylid blaenoriaethu'r cyfleoedd i wella effeithioldeb gwasanaethau'r Cyngor
- Dylid archwilio'r cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n wahanol sy'n cynnig gwell gwerth am arian
- Bydd rhaid lleihau cost y gweithlu er mwyn lleihau gwariant hefyd
- Dylid lledaenu unrhyw leihad mewn gwariant mewn gwasanaethau'r rheng flaen ledled pob maes gwasanaeth.
- Dylai'r Cyngor gynyddu incwm yn erbyn yr arbedion angenrheidiol.

Am ganlyniadau manwl Cyfnod 1, ewch i wefan y Cyngor a darllen yr [adroddiad](#) canlynol.

Yn gryno y cynigion a oedd yn derbyn y cytundeb lefel uchaf gan y cyhoedd yng Nghyfnod 2 oedd: Caffaeliad, Post, Cyfieithu, Cyllid Cyfalafol, Fflyd Cerbydau, Cyfathrebu ac Ymgynghoriad, Asedau Cymunedol a Chyfeillio. Y cynigion a oedd yn derbyn y lefelau isaf ar y cyfan oedd Cyfleusterau Cymunedol, Adolygiad y Llyfrgelloedd, Canolfannau Cymunedol, Ail-lunio Gwasanaethau Parciau, Cymorthdaliadau Ychwanegol i Ysgolion, a Gwasanaethau Bws Rhatach.

Am ganlyniadau manwl Cyfnod 2, ewch i wefan y Cyngor darllen yr [adroddiad](#) canlynol.

Defnyddiwyd y canfyddiadau o gyfnod 1 yr ymgynghoriad i arwain datblygiad y rhaglen pum mlynedd i ail-lunio gwasanaethau er mwyn cwrdd â'r toriadau yn y gyllideb wrth gynorthwyo'r mwyaf bregus:

- Ers 2010 mae'r Cyngor wedi llwyddo i wneud arbedion effeithioldeb blynyddol sylweddol ac yn parhau i flaenoriaethu gwella effeithioldeb
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddarparu nifer o wasanaethau ar y cyd a bydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud hynny
- Yn dilyn blynyddoedd o ailffurfio gwasanaethau mae'r Cyngor wedi lleihau'n barhaol ei uwch reolaeth a bellach mae ganddo un o'r strwythurau rheoli lleiaf mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda phrif weithredwr, tri chyfarwyddwr ac wyth pennaeth adran.

- Mae chwilio am incwm ychwanegol neu gynhyrchu ffynonellau incwm newydd yn bwysig i bob Cyngor o ystyried y toriadau mawr sydd i'w hwynebu yn y gyllideb ac mae'r Cyngor yn archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o incwm
- Ni does un ateb unigol a fydd yn gwneud yr arbedion angenrheidiol i gyrraedd y toriadau yn y gyllideb, felly mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd pecyn sy'n golygu gwneud arbedion ledled y sefydliad i gyd.

Defnyddiwyd y canfyddiadau o gyfnod 2 yr ymgynghoriad i arwain y gwaith mireinio a'r penderfyniadau a gyflwynwyd am gynigion y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol. Byddwn yn mynd â'r holl wasanaethau cymorth a'r prosiectau trawstorri a fydd yn gwneud arbedion a chatau effeithioldeb ledled y sefydliad megis:

- Gwella'r modd mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau
- Lleihau cost anfon ac ymdrin â phost
- Gweithio mewn partneriaeth a Chyngor Sir Conwy er mwyn darparu'r ateb fwyaf cost effeithiol am gyfieithu i'r Gymraeg.
- Gwella rheolaeth buddsoddiadau'r Cyngor a benthyg ledled y Cyngor
- Gwella effeithioldeb y fflyd cerbydau
- Lleihau cost y cylchgrawn Cyswllt a Phanel Dinasyddion y Cyngor.
- Nodi cyfleoedd i rannu adeiladau cymunedol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau
- Rhoi diwedd i ymweliadau a ariennir i siroedd gyfeillio Wrecsam ac oddi yno tra'n cadw cysylltiad.

Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio atborth o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i leddfu effaith y cynigion ar y gymuned. Er enghraifft:

- Mae'r Cyngor wedi rhoi opsiwn i'r Cynghorau Cymuned i ariannu darpariaeth y cyfleusterau cymunedol megis yr hebryngwyr croesfannau ysgol a meysydd chwarae a bydd mwyafrif llethol y cyfleusterau hyn wedi eu hariannu gan eu Cynghorau Cymuned perthnasol o 2014/15 ymlaen.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno i leihau oriau agor yr holl lyfrgelloedd o 19% ac mae'n ystyried yr opsiynau gwahanol i ddarparu'r gwasanaethau yn llyfrgelloedd Brymbo a Gresffordd er mwyn lleddfu'r angen i'w cau, megis cyflwyno cynnig i adleoli Brymbo, dargyfeirio'r llyfrgell symudol a thrafod ateb cymunedol i Gresffordd a Merffordd.
- Yn anffodus, oherwydd costau gweithredu uchel, y diffyg cyllid, a'r costau sy'n

angenrheidiol i gadw cyfleuster hamdden Plas Madoc i weithredu'n ddiogel yn y dyfodol, bu rhaid i'r Cyngor gau'r cyfleuster hwn. Fodd bynnag mae'r Cyngor wedi ymestyn ei gyfnod mynegi diddordeb i drosglwyddo'r ganolfan yn fenter gymunedol / gilyddol cyn ei ddymchwel. Os na ellir sefydlu menter o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried yr opsiynau i ail-fuddsoddi peth o'r cyfalaf a dderbynnir am y safle mewn cyfleusterau cymunedol yn ardal Plas Madoc.

- Bydd yr holl barciau yn aros ar agor. Fodd bynnag, er mwyn gwneud arbedion bydd rhaid cynnal llai o ddigwyddiadau a gweithgareddau a drefnir yn y parciau. Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn cael gwybod sut maent am fod yn gysylltiedig â chynorthwyo'r parciau yn y dyfodol. Er enghraifft mae Cyngor Cymuned Offa wedi cytuno i gynorthwyo â chostau diogelwch Parc Bellevue.
- Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth Cerdd all gwricwlaidd canolog drwy gyfuniad o hyfforddiant wythnosol mewn ysgolion a chyfranogaeth mewn grwpiau cerdd ysgol a sirol. Cost darparu'r gwasanaeth hwn yw £516,000 y flwyddyn ac mae'r mwyafrif ohono yn cael ei dalu gan yr ysgolion gyda £116,000 o gymhorthdal yn cael ei dalu gan y Cyngor tuag at y gwasanaeth. Bydd y cymhorthdal hwn yn cael ei ddileu ond bydd cyfuniad o arbedion effeithioldeb a chynnydd bach mewn costau i'r ysgol yn galluogi cadw'r gwasanaeth cerdd all gwricwlaidd.

Am fanylion llawn o sut y defnyddiwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad ewch i'r [adroddiad](#) ar wefan y Cyngor.

Cyflwynwyd y canfyddiadau i'r holl Gynghorwyr mewn gweithdy i'r holl Aelodau ac roedd y manylion mewn adroddiad i Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Cyhoeddwyd atborth a'r canlyniadau ar dudalen ymgynghori gwefan y Cyngor a anfonwyd yn uniongyrchol at y fforymau hynny a oedd yn gysylltiedig â grwpiau ffocws, e-bostiwyd aelodau Panel y Dinasyddion a chafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau lleol.

Awgrymodd atborth o Gyfnod 1 yr ymgynghoriad bod rhai cyfranogwyr yn hoff o'r cyfle a natur gynyddol efelychydd y gyllideb gan ystyried ei fod yn cyfathrebu'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud yn effeithiol. Fodd bynnag, awgrymodd atborth arall y byddai rhai cyfranogwyr yn dymuno gwybodaeth fwy manwl am y gyllideb a gwybodaeth fwy coeth am ganlyniadau'r cynnydd neu leihad mewn gwariant yn y meysydd gwasanaeth gwahanol. O ran Cyfnod 2, awgrymodd rhai sylwadau gan ymatebwyr y byddai

gwybodaeth fwy manwl am y cynigion wedi galluogi ymateb mwy deallus gan gyfranogwyr. Bydd paratoi cynigion y gyllideb ar gyfer 2015/2016 a'r ymgynghoriad am y cynigion hyn yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn eleni er mwyn gwella ansawdd cyfrannol effeithioldeb yr ymgynghoriad am y cynigion hyn.

Ailffurfio'r Grŵp Gwasanaethau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 i gynorthwyo pobl gyda nodweddion a ddiogelir ac mae'n hanfodol ystyried effaith unrhyw newid mewn newid polisi neu wasanaeth ac ymgynghori gyda'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio. Ymhlith y nodweddion a ddiogelir gan y ddeddf mae:


- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Hil ac Ethnigrwydd
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Fel Cyngor rydym hefyd yn ystyried Gofalwyr, yr Iaith Gymraeg a Thlodi

Pwrpas y 'Grŵp Ailffurfio Gwasanaethau' yw dod ag aelodau o'r gymuned leol gyda nodweddion a ddiogelir gwahanol at ei gilydd er mwyn cael syniad a golwg gyntaf ar sut y bydd eu cynigion neu bolisïau yn effeithio ar bobl yn lleol. Mae'r grŵp yn cynnwys 16 unigolyn, rhai ohonynt yn swyddogion o'r Cyngor sy'n gweithio gyda phobl gyda nodweddion a ddiogelir a rhai aelodau o'r gymuned. Bydd y swyddogion yn rhoi cyflwyniad byr ac yna bydd y grŵp yn trafod pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut. Byddant hefyd yn trafod y camau lliniaru posib o ran effaith negyddol o ganlyniad i'r cynnig. Ni fwriedir y broses hon i ddisodli ymgynghoriad ffurfiol neu statudol., ond yn hytrach er mwyn sicrhau bod llais y grwpiau sydd prin yn cael eu clywed yn cael eu cynnwys mor fuan â phosibl.

Hyd yn hyn mae swyddogion wedi rhoi gwybod eu bod yn ystyried bod y grŵp yn ddefnyddiol ac y gwnaed sawl newid i'r cynigion o ganlyniad uniongyrchol o atborth gan y grŵp. Nid yw'r grŵp yn fforwm agored i'r cyhoedd, gan efallai na wireddir rhai o'r cynigion a adolygwyd gan y grŵp, ac na ddônt i sylw'r cyhoedd. Felly, mae'r atborth ar gael i'r grŵp yn unig a chaiff ei gyflwyno ar ddechrau pob cyfarfod gydag arolwg yn flynyddol.

Llais y Bobl



Mae Panel y Dinasyddion yn groestoriad o bobl leol sy'n cytuno i gymryd rhan mewn ymgynghoriad a gwaith ymchwil gyda'r cyngor yn rheolaidd. Efallai y bydd aelodau o'r panel yn llenwi holiaduron, mynd i gyfarfodydd trafod a chymryd rhan mewn digwyddiadau eraill. Bydd y pynciau trafod yn amrywio, ond ar y cyfan byddant yn ymwneud â materion lleol a gwasanaethau'r cyngor. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio arolygon Panel y Dinasyddion yn rheolaidd er mwyn deall safbwyntiau lleol am y Fwrdeistref Sirol a gwasanaethau'r Cyngor. Mae CBSW wedi defnyddio Panel Llais y Bobl yn llwyddiannus yn y gorffennol er mwyn cael gwybod barn y bobl am amryw o bynciau.

Llais y Bobl – Cydlyniad Cymunedol

Ym mis Hydref 2013, cynhaliwyd ymgynghoriad er mwyn dod i wybod barn trigolion am berthnasau cymunedol yn eu hardal leol, ac yn fwy cyffredinol ledled y Fwrdeistref Sirol. Cafodd 278 arolwg eu dychwelyd gan aelodau 'Llais y Bobl'.

Bu i'r ymgynghoriad ganfod y canlynol:

- Cytunodd dros hanner (55%) y cyfranogwyr bod eu hardal leol yn lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda gyda'i gilydd.
- Cytunodd bron i ddau draean o'r cyfranogwyr (61%) bod pobl yn eu hardal leol yn ystyried ei gilydd, ac yn trin ei gilydd â pharch
- Cytunodd bron i ddau draean (66%) o'r cyfranogwyr bod pobl yn eu cymdogaeth yn barod i helpu eu cymdogion
- Pan ofynnwyd pa mor gryf roeddent yn teimlo eu bod yn perthyn i nifer o ardaloedd, roedd 7 o bob 10 yn teimlo'n gryf (un ai'n gryf neu eithaf cryf) eu bod yn perthyn i

Gymru (73%) neu'r Deyrnas Unedig (70%). Roedd bron i dri rhan o bump yn teimlo eu bod yn perthyn yn gryf i Fwrdeistref Sirol Wrecsam (58%) neu i'w hardal leol (58%). Mae'n ddiddorol nodi bod y cyfranogwyr yn teimlo'n gryfach at eu sir na'u hardal leol.

- O ran gwneud rhywle yn lle da i fyw, ymhlith y pump peth pwysicaf lefel troseddu isel a ddewiswyd fwyaf aml. Roedd bron i hanner y cyfranogwyr (48%) yn dewis gwasanaethau iechyd, a thros ddwy ran o bump yn dewis (45%) tai gweddus ymhlith y pump peth pwysicaf. Ffactorau eraill a oedd yn cael eu crybwyll oedd: strydoedd glân, darpariaeth addysg, rhagolygon swyddi, mynediad at natur neu weithgareddau i blant ifanc.
- Pan ofynnwyd i gyfranogwyr pa bum peth a oedd angen eu gwella yn eu hardal leol, dewiswyd atgyweiriadau i'r ffordd a'r palmant fel y pwysicaf. Y dewisiadau eraill o bwys oedd gwella'r rhagolygon am swyddi, gweithgareddau / cyfleusterau i bobl ifanc, lefel troseddu a thai gweddus fforddiadwy.
- Nododd tri chwarter y cyfranogwyr (75%) nad oeddent wedi cael profiad personol o anffafiaeth, aflonyddwch neu gael eu cam-drin yn y 12 mis diwethaf; dywedodd chwarter (25%) eu bod wedi cael profiad o'r rhain.
- O'r bobl hynny a nododd eu bod wedi cael profiad personol o anffafiaeth, aflonyddwch neu gael eu cam-drin yn y 12 mis diwethaf, roedd dros chwarter ohonynt yn tybio eu bod wedi eu targedu oherwydd lle'r oeddent yn byw. Tybiai chwarter mai eu hymddangosiad oedd pam eu bod wedi eu targedu, tra roedd 1 o bob 5 yn tybio mai eu hoed oedd y rheswm.

Mae cael perthnasau cymunedol da a theimlo'n rhan o'r gymuned yn rhan pwysig o 'les' pawb. Defnyddir gwybodaeth o'r ymgynghoriad hwn i adolygu pa mor dda mae'r cyngor yn cynorthwyo perthnasau cymunedol da, a bydd yn ymdrin â materion all niweidio perthnasau cymunedol a chael effaith negyddol ar unigolion e.e. trosedd casineb, tensiynau cymunedol. Bydd newidiadau i'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn cael ei weithredu drwy gynlluniau adran yn 2014-15.

Llais y Bobl – Diogelwch Cymunedol

Ym mis Hydref 2013, cynhaliwyd ymgynghoriad i fesur sut mae pobl yn ystyried trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n hanfodol bwysig bod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam yn deall hyn fel un o'u brif amcanion, er mwyn sicrhau bod pobl yn y Fwrdeistref Sirol yn teimlo'n ddiogel.

- Dywedodd 92% o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel pan oeddent allan yn ystod y dydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam
- Dywedodd 52% o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel pan oeddent allan gyda'r nos ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam
- Dywedodd bron i'r holl gyfranogwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel tu allan yn eu hardal leol yn ystod y dydd (98%) neu gartref yn ystod y dydd (98%).
- Roedd bron iawn traean (38%) o'r cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel yng nghanol tref Wrecsam gyda'r nos ar y penwythnos.
- Dywedodd tua chwarter (26%) o'r cyfranogwyr eu bod yn bersonol wedi dioddef trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol pan oeddent adref gyda'r hwyr yn y tair blynedd diwethaf.
- Teimlai (50%) o'r holl gyfranogwyr bod lefel trosedd wedi cynyddu yng nghanol tref Wrecsam yn y 12 mis diwethaf.
- Teimlai dros hanner (58%) o'r cyfranogwyr bod lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu yng nghanol tref Wrecsam yn y 12 mis diwethaf.
- Cytunodd (51%) o'r cyfranogwyr bod Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrin â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Teimlai (52%) hanner o'r cyfranogwyr bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn ymwneud ag alcohol yn un o'r mathau mwyaf cyffredin o droedd yn eu hardal leol. Roedd rhwng dwy ran o bump a hanner y cyfranogwyr yn tybio bod troseddau gyrru (e.e. modurwyr sy'n gyrru) (49%), difrod/dwyn o geir wedi eu parcio (46%) neu'n defnyddio cyffuriau (45%) ymhlith y mathau mwyaf cyffredin o droedd yn eu hardal leol.
- Gofynnwyd i aelodau'r panel os oedd yna unrhyw beth y gallai'r gwasanaethau cyhoeddus eu gwneud er mwyn iddynt deimlo'n fwy diogel yn eu hardal leol a chanol tref Wrecsam. Un o'r ymatebion mwyaf cyffredin oedd mwy o bresenoldeb yr heddlu.

Defnyddir y canlyniadau hyn i arwain Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam ar faterion pwysig a nodwyd yn y gwaith ymchwil a fydd yn arwain datblygiad eu rhaglen sicrwydd parhaus.

Arolwg Tenantiaid 2013

Pwrpas yr arolwg oedd cael gwybod barn y tenantiaid am wasanaeth tai'r Cyngor, cyflwr y tai, ymglymiad tenantiaeth a chymdogaeth. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i ymgynghori â thenantiaid ar y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth atgyweirio a'r polisi gosod rhent newydd.

Anfonwyd ffurflen arolwg i bob tenant gyda rhifyn o'r cylchlythyr i denantiaid - Trafodion Tai. Roedd posib ei gwblhau ar-lein hefyd drwy ddolen i wefan y Cyngor ac i'r *Survey Monkey*. Dosbarthwyd cyfanswm o 11,307 arolwg i denantiaid y Cyngor. Gwnaethom dderbyn 1,249 wedi ei llenwi'n llwyr neu eu llenwi'n rhannol, gan roi graddfa ymateb o 11%. Cwblhaodd mwyafrif llethol y cyfranogwyr gopi caled o'r arolwg yn hytrach na chwblhau'r copi ar-lein.

Roedd cyfran sylweddol o'r tenantiaid a ymatebodd rhwng 60 a 79 oed, ac yna tenantiaid a oedd rhwng 40 a 59 oed. Cymharwyd canlyniadau'r un cwestiynau neu gwestiynau tebyg yn arolwg ar-lein 2012 ac roedd y lefel bodlonrwydd wedi gwella yn y meysydd gwasanaethau.

Yn gryno roedd:

- 87% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gymdogaeth fel lle i fyw ynddo (76% yn 2012)
- 67% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwaith cynnal a chadw a'r gwaith atgyweirio yn eu cartref (69% yn 2012)
- 75% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r ffordd y cafodd eu galwad ei ymdrin â fo tu allan i oriau arferol (44% yn 2012)
- 77% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r ystod gyffredinol o wasanaethau a gynigiwyd i gynorthwyo tenantiaid newydd a'u tenantiaethau.
- 68% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda chyflwr cyffredinol eu cartref (64% yn 2012)

- 82% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Tai.

Mae Rheolwyr y Gwasanaethau Tai wedi cael gwybod am brif ganfyddiadau'r arolwg, a rhoddwyd gwybod hefyd i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam ar 25 Ebrill 2014. Roedd Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd â'r adroddiad. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r meysydd anfodlonrwydd â rhai meysydd gwasanaethau, ac yn nodi sut y byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn ogystal â gwella'r gwasanaethau. Gwneir dadansoddiad a gwaith pellach i fynd i'r afael â phryderon penodol neu nodi trefn benodol. Mae'r Bartneriaeth wedi gwneud cais am ddiweddariad o'r adroddiad er mwyn cael gwybod am y cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu.

Rhoddwyd gwybod hefyd am ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda thenantiaid i'r gwasanaeth atgyweirio a dechrau'r polisi gosod rhent newydd i'r Pwyllgor. Rhoddwyd gwybod am atgyweiriadau i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam ar 7 Mawrth 2014 ac mae'r Rhadffon Atgyweiriadau i gael ei newid yn rif lleol ar 1 Ebrill 2014. Cefnogwyd hyn gan y farn a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad/arolwg. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad ar bolisi gosod rhent newydd y Cyngor hefyd wedi ei ychwanegu yn yr adroddiad i'r Cymunedau, Tai ac Amgylchedd ar 12 Mawrth. Cefnogodd hyn gynigion y Cyngor i gyflwyno un rhent ar gyfer bob math o eiddo a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu canllawiau a gyhoeddwyd i'r awdurdodau. Rhoddwyd gwybod hefyd am brif ganlyniadau'r arolwg i'r Rheolwyr ac i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam ar 25 Ebrill 2014.

Rhoddwyd gwybod am y canlyniadau i'r tenantiaid hefyd drwy rifyn nesaf y cylchlythyr i denantiaid sydd ar gael ar wefan y Cyngor a drwy amrywiol Grwpiau Gwella'r Gwasanaethau. Bydd deg Grŵp Gwella'r Gwasanaethau yn derbyn copi o'r canlyniadau ar gyfer eu gwasanaeth penodol er mwyn iddynt fod yn gallu archwilio'r canlyniadau yn fwy manwl pan fydd y grŵp yn cyfarfod. Yn gellir cynnwys y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu. Bydd gwybodaeth ar flaenoriaethau tenantiaid ar gyfer gwella'r stoc tai hefyd yn cael eu hystyried gan y Rheolwr Eiddo wrth baratoi Rhaglenni Gwella Cyfalafol yn y dyfodol. Bydd Aelodau yn cael crynodeb o'r canfyddiadau mewn Nodiadau Cyfarwyddo.

Bu i'r arolwg ddangos rhai canfyddiadau cadarnhaol a nodi meysydd lle mae angen gwella pellach. Cafwyd tystiolaeth y bu gwelliannau mewn rhai meysydd gwasanaeth o'i gymharu â'r arolwg ar-lein a wnaed yn 2012. Roedd gostyngiad mewn rhai lefelau anfodlonrwydd a gwneir gwaith pellach i ddadansoddi unrhyw drefn a mynd i'r afael â phryderon, a bydd y Cynllun Gweithredu a gynhyrchir yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau.

Hyrwyddo Rhoi Gwybod am Drosedd Casineb

Mae'r Cyngor yn hwyluso Grŵp Eiriolwyr Cymunedol sy'n cynnwys pobl leol sy'n gwirfoddoli i gynrychioli eu grŵp ethnig neu genedligrwydd. Mae'n grŵp gweithredu gorchwyl a gorffen anffurfiol sy'n cyfarfod bob mis a bydd ei aelodau wedi derbyn hyfforddiant i fod yn ohebwy achosion trosedd casineb trydydd parti. Byddant hefyd yn cynnig cymorth i ddiodefwyr yn eu cymunedau lleol er mwyn annog rhoi gwybod am achosion. Bydd aelodau yn darparu cyfle am drafodaeth gyda'r Cyngor a'r Heddlu a gwasanaethau eraill er mwyn ystyried y sefyllfa lleol; y rhwystrau i roi gwybod a sut y gallwn oresgyn y rhain; beth yw'r math gorau o gymorth; a beth yw'r dulliau gorau o roi gwybod a'r disgwyliadau cymunedol. Mae gan y grŵp oddeutu 8 aelod, gan gynrychioli cynrychiolwyr o'r gymuned Du ac Affricanaidd, y gymuned Portiwgaleg, y gymuned Bwylaidd a'r gymuned Mwslemaidd.

Mae'r grŵp wedi ein galluogi i ganfod y canlynol:

- Y sefyllfa leol o ran beth mae pobl yn cael profiad ohono o ran achosion casineb.
- Rhwystrau i roi gwybod am achosion casineb (e.e. ofn ôl-ffeithiau, drwg dybio'r heddlu, methu siarad Saesneg neu Gymraeg os o gwbl)
- Argymhellion o'r hyn sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn
- Sut i gynorthwyo pobl sy'n dioddef achosion casineb orau.

Rhannwyd y wybodaeth a gasglwyd gan y grŵp â'r Heddlu er mwyn gwella ymateb yr heddlu ac asiantaethau eraill e.e; Cymorth i Ddiodefwyr a Rhwydwaith Gogledd Cymru Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth. Mae hefyd wedi tywys ein harferion felly mae ein hyfforddiant bellach yn cynnwys profiadau uniongyrchol pobl. Rydym wedi rhannu profiadau a straeon pobl gyda darparwyr gwasanaethau eraill er mwyn gwella sut fydd gwasanaethau'n ymateb, a rhoi atborth i aelodau grwpiau ym mhob cyfarfod.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn Rhaglen Trechu Tlodi gan Lywodraeth Cymru. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithredu fel Corff Cyflawni Arweiniol i'r rhaglen a bydd ganddo 2 dîm staff, a leolir mewn dwy ardal o'r Fwrdeistref Sirol a elwir yn 'Glystyrau' - Parc Caia & Hightown a Phentrefi Trefol. Arweinir y rhaglen gan y gymuned a bydd gofyn i bob

Clwstwr gynhyrchu 'Cynllun Ymglymiad Cymunedol' sy'n amlinellu ei ymagwedd at sicrhau bod aelodau'r gymuned yn gallu cymryd rhan, ffurfio ac arwain gweithgareddau o fewn y Rhaglen ac yn wir, fod ganddynt rôl yn y gwaith llywodraethu cyffredinol drwy ymglymiad yn y Bwrdd Clwstwr. Dan arweiniad y gymuned y **Bwrdd Clwstwr** yn craffu'n gyffredinol ar y Rhaglen. Mae 2 le ar gael ar y Bwrdd i gynrychiolwyr cymunedol am bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen (LSOA) a bydd Aelodau'r Bwrdd yn cael eu cymeradwyo drwy enwebiad a phroses dilysu cymunedol (mae angen 10 llofnod i gefnogi enwebiad). Bydd y Bwrdd yn cytuno perfformiad, ceisiadau am gyllid / adroddiadau i'r Rhaglen. Oherwydd bod angen tystiolaeth o ymglymiad ac arweiniad cymunedol ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf nid yw'n pennu Bwrdd - dyma yw dewis ymagwedd CBSW i'r perwyl hwn.

Cynllun Cyflenwi Clwstwr - Y cynllun blynyddol hwn yw sail cyllid Llywodraeth Cymru (WG) i gynorthwyo gweithgareddau a luniwyd i wella Ffyniant, Dysgu ac Iechyd yng nghymunedau'r Clwstwr, Datblygwyd pob fersiwn drwy broses gweithdai lle bydd aelodau o'r gymuned ac asiantaethau partner yn ystyried data ystadegol, gwybodaeth leol a phrofiadau personol er mwyn blaenoriaethau meysydd gwaith, ac yna datblygu gweithgareddau mewn ymateb iddynt. Cymerodd y Cynllun Cyflenwi cyntaf oddeutu chwe mis i'w ddatblygu, gyda chyfarfodydd grŵp llywio a gweithdai. Mae angen adolygiadau blynyddol ar WG sy'n broses fyrrach, ond sy'n parhau i ganolbwyntio ar yr ymagwedd gweithdy. Ymhlith yr enghreifftiau o lle rydym wedi ymateb i lais y gymuned drwy'r Cynllun Cyflenwi mae:

- Datblygu rhaglen codi ymwybyddiaeth am bobl ifanc yn yfed diodydd egni
- Grŵp Dysgu Pentrefi Gwledig sy'n darparu oddeutu 10 cwrs y tymor ar sail galw cymunedol
- Prosiect gwaith ieuencid sydd â chynllun ac amserlen a luniwyd gan y bobl ifanc eu hunain
- Digwyddiad Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr a hwyluswyd yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol gydag aelodau o'r gymuned.

Mae Cymunedau yn Gyntaf hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith canlynol:

- **Adolygiad Hamdden 2013** - Roedd Pentrefi Trefol Cymunedau yn Gyntaf yn aelodau o'r Grŵp Llywio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran yr Adolygiad Hamdden, yn cynorthwyo i ffurfio dyluniad a gweithredu'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Fel gwasanaeth byddwn yn darparu mynediad at gyfleusterau TG ac / neu gymorth ymarferol i bobl sy'n dymuno cwblhau holiaduron. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth gan y gymuned a ffynonellau eraill ac yn ei gyflwyno i wneuthurwyr penderfyniadau.

- **Ychwanegwch i'ch Bywyd (Gwiriad iechyd i'r rhai dros 50 oed)** - mae hon yn fenter WG y mae gofyn i Gymunedau yn Gyntaf ei gweithredu yn 2014-15. Mae'n cynnwys holiadur ar-lein a bydd cymorth i oedolion dros 50 oed ei gwblhau. Bydd canlyniadau'r holiadur yn rhoi argymhellion ar sut y gallant reoli eu hiechyd yn well, ond bydd hefyd yn arolwg pwysig o iechyd a lles yn y ddemograffeg hon a bydd yn arwain adolygiadau dilynol y cynllun. Ar hyn o bryd rydym yn gwrandao ar y gymuned ar sut i ymgysylltu orau gyda phobl ynghylch yr holiadur hwn.

Adolygu Ysgolion Canol y Dref

Bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam adolygu darpariaeth yr ysgolion yng nghanol tref Wrecsam er mwyn ystyried y ffordd orau i wella dysgu a chyrrhaeddiad i blant a phobl ifanc. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymglymiad (arolwg ar-lein, grwpiau trafod, llythyrau ac ymatebion e-bost), gofynnwyd i bobl roi sylwadau a chyflwyno barn ar dri opsiwn posib a nodwyd gan y cyngor. Ar y cyfan derbyniodd yr ymgynghoriad 510 ymateb ar-lein ac oddeutu 50 ymateb ysgrifenedig - rhieni, llywodraethwyr a phartïon arail oedd â diddordeb yn bennaf. Cynhaliwyd grwpiau trafod gydag oddeutu 70 o bobl, a chafwyd 'Gweithdy i Bob Aelod' i ystyried y mater hwn.

Y neges gref a chyson a gododd o ganlyniad i'r ymgynghoriad oedd y dylai gwella cyrrhaeddiad a symud y ddwy ysgol allan o gategori Estyn fod yn flaenoriaeth i'r ysgolion a'r Awdurdod Lleol, cyn ystyried newidiadau strwythurol. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at bryderon ynghylch profiad disgyblion o'r trosglwyddiad rhwng addysg gynradd ac uwchradd, mater y mae Senedd Yr Ifanc wedi ei ddewis fel pwnc pwysig i'w grŵp blaenoriaeth addysg am y flwyddyn sydd i ddod.

Cytunodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad a phenderfynu mai y dull mwyaf priodol o wella dyheadau, dysgu a chyrrhaeddiad pobl ifanc yng nghanol y dref yn y tymor byr oedd parhau i gynorthwyo'r sialens yn Ysgol Clywedog ac Ysgol Uwchradd Rhosnesni sef gwella fel dwy ysgol gyfun gymunedol 11-16 gyda ffocws.

Rhodddwyd gwybod am y penderfyniad ar y wefan ac yn y wasg leol, yn ogystal ag i aelodau o'r grwpiau trafod yn uniongyrchol.

Digwyddodd yr ymarferiad cyn gwneud unrhyw gynigion ffurfiol a chynnal ymgynghoriad statudol. Bu iddo fod yn ddefnyddiol i gasglu barn ar y dechrau fel hyn, a alluogodd casglu'r farn gyffredinol cyn mynd ymlaen â'r cynigion hyn yn fwy ffurfiol. Fodd bynnag, tybiwyd bod angen cyfathrebu'r ymgynghoriad cynnar hwn yn fwy amlwg er mwyn osgoi camddealltwriaeth am ei bwrpas.

Ymgynghoriad y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant

Nododd Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant Sir y Fflint a Wrecsam eu prosesau Amddiffyn Plant fel maes i'w ddatblygu ar ôl cyhoeddi astudiaeth gan Brifysgol Dwyrain Anglia am y mater. Tynnodd hwn sylw at y ffaith pan fyddant yn mynd rwy'r broses Amddiffyn Plant nad yw plant a phobl ifanc bob amser yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd iddynt a pham. Mae Wrecsam a Sir y Fflint yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth y bydd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu derbyn ac yn tybio'r ffordd orau i gyflawni hyn yw drwy wella ein dealltwriaeth o'u profiadau.

Er mwyn archwilio'r prosesau presennol a chael gwybod barn y rhanddeiliaid, bu i FWLSCB wneud gwaith ymchwil. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys cael barn plant, pobl ifanc a'u rhieni a oedd wedi bod ynghlwm wrth y broses Amddiffyn Plant, ac ystyried sut y gellid gwella'r system. Roedd yr astudiaeth yn ansoddol ac yn ceisio deall barn a phrofiadau plant a phobl ifanc (a'u rhieni). Casglwyd gwybodaeth drwy:

- Cyfarfod â staff
- Dadansoddiad o Ddata Diogelu Plant
- Holiadur staff
- Cyfweliadau ac ymweliadau gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Roedd hon yn astudiaeth ar raddfa fach a oedd yn cynnwys 8 plentyn ac unigolyn ifanc dros 4 oed. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn hefyd gydag 8 rhiant a gofalwyr.

Dangosodd yr astudiaeth nad yw plant a phobl ifanc yn gyffredinol ynghlwm wrth y Broses Amddiffyn Plant yn uniongyrchol. Gall hyn fod oherwydd amrywiaeth o resymau, gan

gynnwys dewis personol, eraill yn gwneud y penderfyniadau i beidio â'u cynnwys; pryderu. Hefyd tueddiad rhieni a gofalwyr oedd yn dymuno gwarchod y plant rhag y broses, yr oeddent yn tybio gallai effeithio ar ddealltwriaeth y plant a'r bobl ifanc o brosesau amddiffyn plant. Roedd rhai o'r ffactorau pwysig a godwyd gan blant a phobl ifanc yn cynnwys: cael rhywun i godi pryderon gyda, bod yn hapus, a deall y broses amddiffyn plant a'r lefel cymorth sydd ei angen gan y teulu cyfan.

Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth, bwriad yr adran yw gweithredu nifer o newidiadau sy'n ceisio gwella profiad y plant, bobl ifanc a'u teuluoedd o 'amddiffyn plant.' Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd sy'n gyfeillgar i'r plant a phobl ifanc; datblygu dogfennau a thafenni gyda gwybodaeth am y broses sy'n gyfeillgar i'r plant a phobl ifanc; ffurflenni atborth i annog cyfleoedd rheolaidd iddynt gael dweud eu dweud am y broses. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu cwblhau ac unwaith y byddant wedi eu cwblhau, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi i bob cyfranogwr gael ei ddarllen.

Mae canlyniadau'r astudiaeth hwn yn helpu ni i wneud newidiadau i'r arferion ar draws y Broses Amddiffyn Plant yn Wrecsam. Mae ffurflenni gwerthuso yn cael eu cynhyrchu i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn casglu atborth.

Senedd Yr Ifanc

Senedd Yr Ifanc ydi cyfle pobl ifanc Wrecsam i leisio barn ac i dynnu sylw at bethau sy'n effeithio arnynt. Mae cynrychiolwyr y Senedd yn 11 i 25 oed a byddant yn cael eu hethol gan eu cyfoedion i gynrychioli barn pobl ifanc. Dônt o ystod eang o grwpiau gan gynnwys y sector gwirfoddol, prosiectau ieuencid lleol, grwpiau amrywiaeth a chydaddoldeb.

Bydd y Senedd yn ymgynnull pedair gwaith y flwyddyn yn Siambr Cyngor Wrecsam er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Yn dilyn pleidlais 2013 am flaenoriaethau i bobl ifanc ledled Wrecsam, mae'r bobl ifanc wedi datblygu portffolio er mwyn cyflawni gwaith yn y meysydd hyn. Y blaenoriaethau yn unol â Chynllun y Cyngor yw:-

Cynllun y Cyngor	Dewis Blaenoriaeth
Pobl	Mae gan bob CYP ddyheadau i ddysgu, a llwyddo i wireddu eu potensial
Lle	Cartrefi sy'n bodloni anghenion a dyheadau pobl

Economi	Bydd pobl am fyw, gweithio, buddsoddi ac ymweld yma
---------	---

Eleni bu aelodau'r Senedd hefyd gymryd rhan mewn gwaith ymgynghori am:

- Strategaeth Comisiynu Plant a Phobl Ifanc
- Trosedd Casineb
- Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Cyngorydd Neil Rogers, Arweinydd y Cyngor
- Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- Sesiwn Holi ac Ateb gyda Lesley Griffiths AS, Gweinidog Dros Lywodraeth Leol
- Ailffurfio Ymgynghoriad y Gwasanaethau am Gyllideb y Cyngor yn 2014/15.

Ymgynghoriad Gofalwyr Ifanc

Yn ystod 2013, bu i Wrecsam weithio mewn partneriaeth â Chonwy a Sir Ddinbych i ddatblygu gwasanaeth newydd i Ofalwyr Ifanc ar draws y tair sir. Crëwyd arolwg i gasglu barn gofalwyr ifanc am y gwasanaeth presennol a pha gymorth arall y byddent o bosib ei angen yn eu tyb nhw. Casglwyd barn plant a phobl ifanc drwy grwpiau ffocws a thrwy gyhoeddi'r arolwg. Cynorthwyodd y safbwyntiau hyn gyda llunio manylion y gwasanaeth newydd a ddaeth ar waith ym mis Ebrill 2014.

Asesiad Sylfaenol Ansawdd Bywyd

Fel rhan o flaenoriaeth Cynllun y Cyngor (sy'n datgan 'Mae gan pob unigolyn hŷn yr iechyd gorau bosibl, maent yn ddiogel, ac mae ganddynt annibyniaeth hefyd'), gwnaed asesiad sylfaenol o Ansawdd Bywyd Gofal Cymdeithasol i Oedolion (ASC) cleientiaid Tai (HSG) er mwyn gwerhfawrogi yr effaith y mae ein gwasanaethau yn ei gael ar fywydau ein cleientiaid. Bydd y ddwy adran y defnyddio'r data hwn i gynorthwyo gyda'u cynllunio strategol.

Rhannwyd yr adroddiadau a'r data gyda swyddogion yn y ddwy adran. Cyflwynwyd yr adroddiadau hefyd mewn cyfarfod sialens yn arbennig ar gyfer y flaenoriaeth hon, gyda grŵp o uwch swyddogion a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn Gadeirydd. Cyflwynwyd yr atborth o hyn i'r adroddiadau perfformiad corfforedig a gyflwynir i Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Bydd swyddogion comisiynu Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd yn defnyddio'r wybodaeth i ddiweddarau eu data comisiynu er mwyn gwella

darpariaeth y gwasanaeth gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, a chymdeithasau yn y trydydd sector sy'n gweithio mewn cytundeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd. Mae'r wybodaeth hefyd wedi cynorthwyo cynhyrchu adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol eleni. Bydd yr adroddiad ar wefan y Cyngor.

Cynhyrchodd y broses rhai canlyniadau diddorol a daeth yn amlwg wrth ofyn y cwestiynau yn y modd hwn, eu bod yn dyblygu nifer o gwestiynau sydd eisoes yn cael eu gofyn drwy gydol y flwyddyn gan amrywiol wasanaethau sydd wedi bod yn asesu eu llwyddiant. Roedd y broses hefyd yn dyblygu'r ymdrech wrth ddadansoddi data cleientiaid. Bellach penderfynwyd adolygu pob holiadur a ddefnyddir ar hyn o bryd gyda'r grwpiau o gleientiaid a'u symleiddio; defnyddio'r dysg o'r arolwg 'Ansawdd Bywyd' er mwyn lleihau'r baich cleientiaid i gwblhau arolygon i'r Cyngor, tra hefyd yn ein galluogi i wella ansawdd a faint o ddata a gesglir. Gwnawn ychwanegu'r ffynonellau data hyn i'r prosesu asesu presennol er mwyn gwella a mireinio'r canlyniadau yn 2015.

Contract Atborth Cwsmeriaid

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd cadarnhau bod gofal cymdeithasol a ddarperir yn allanol yn bodloni anghenion pobl yn unol â dyletswydd gofal Gwasanaethau Cymdeithasol a gofynion cytundebol yr Adran.

Lluniwyd tri holiadur gan y Tîm Cytundebau sef:

- Gofal Cartref
- Gofal Preswyl (defnyddiwr y gwasanaeth)
- Gofal Preswyl (perthynas/cyfaill)

Gofynnodd yr holiaduron i ddefnyddwyr y gwasanaeth os oedd y gofal yr oeddent yn ei dderbyn yn helpu i fodloni eu hanghenion. I'r bobl a oedd yn derbyn gofal preswyl gofynnodd yr holiadur hefyd i ddefnyddiwr y gwasanaeth am eu pryddau bwyd, eu hystafell a gweithgareddau y gallant gymryd rhan ynddynt. Bydd Swyddogion Monitro Cytundebau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol er mwyn casglu gwybodaeth. Byddant yn ymweld â defnyddiwr y gwasanaeth yn eu cartref/ cartref preswyl, yn trafod y cwestiynau dros y ffôn, neu'n anfon yr holiadur drwy'r post. Byddant yn ymweld cymaint â phosibl.

Mae ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaethau yn broses barhaus ac mae'n rhan o fonitro Cytundebau.

Ar ôl casglu'r atborth gan ddefnyddio un o'r dulliau, dadansoddwyd y nifer canlynol o holiaduron

- Gofal Cartref = 382
- Gofal Preswyl (defnyddiwr y gwasanaeth) = 130
- Gofal Preswyl (perthynas/cyfaill) = 142

Yn ystod y flwyddyn ariannol byddwn yn ceisio cysylltu â 100% o'r bobl y byddwn yn eu cynorthwyo a'u perthnasau. Mae nifer yr holiaduron a gafodd eu dychwelyd gan berthnasau wedi gostwng, gan i'r atborth ddangos eu bod yn ystyried eu bod yn derbyn gormod o holiaduron gan amryw o wasanaethau. Mae nifer defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom ymgysylltu â nhw hefyd wedi gostwng, sy'n arwydd o gynnydd yn eu hanghenion, felly ni fyddant wedi gallu chysylltu â ni mewn ffordd bwysig. Mae'r arolygon statudol yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cyfrannu at eu cynllun gofal os yw'n briodol.

Ar y cyfan, mae defnyddwyr y gwasanaeth o'r farn y dengys parch a lefel uchel o urddas tuag atynt. Tybiant hefyd bod y gwasanaethau y byddant yn eu derbyn o ansawdd da a'u bod yn fodlon â'u trefniadau cymorth. Roeddent hefyd yn teimlo bod y cyfathrebiadau a wneir â nhw yn addas ar eu cyfer. O ran Gofal Cartref, teimlai defnyddwyr y gwasanaeth nad oedd y cyfathrebu cystal â hynny. Er enghraifft, ddim yn cael cyfarfod a'u gweithwyr gofal cyn dechrau ar y cymorth, a derbyn rota wythnosol a chael gwybod os byddant yn derbyn gofal gweithiwr gofal gwahanol. O ran Gofal Preswyl teimlai defnyddwyr y gwasanaeth y gellid ymgynghori â nhw mwy am y gweithgareddau a ddarperir yn y cartref gofal. Er nad oedd defnyddwyr y gwasanaeth yn fodlon â'r meysydd hyn roedd ychydig o welliant ar ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf.

Defnyddir yr atborth a dderbynir i wneud penderfyniadau o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr allanol. Mae'r wybodaeth hefyd yn llywio trafodaethau gyda'n rheoleiddwyr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW). Bydd atborth yn cael ei anfon at y darparwyr er mwyn iddynt weld lle mae defnyddwyr y

gwasanaeth yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a lle gwellir gwella. Bydd unrhyw faterion sydd angen canolbwyntio arnynt yn cael eu hymdrin â nhw'n briodol a chynllun gweithredu.

Defnyddir yr atborth a dderbynir o fewn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Defnyddir yr atborth yn barhaus i arolygu a gwella gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu a chânt eu rhannu â'r Swyddogion Comisiynu er mwyn llywio cynlluniau/bwriadau comisiynu'r dyfodol. Lle mae defnyddwyr y gwasanaeth wedi nodi pryderon, byddant yn cael eu harchwilio gan un ai swyddogion monitro neu eu pasio i Reolwr y Gwasanaethau Cwsmeriaid. Bydd Defnyddiwr y gwasanaeth yn cael gwybod canlyniad yr archwiliad.

Mae'r holiaduron yn rhan bwysig o'r rhaglen monitro sy'n sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu o ansawdd da, yn cael eu darparu gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac yn bodloni trigolion Wrecsam. Yn ystod 2014/15 rydym yn bwriadu adolygu'r holiaduron er mwyn sicrhau eu bod yn cysylltu â holiaduron ASC eraill. Bydd hyn nid yn unig yn cynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng timau/gwasanaethau ond hefyd yn sicrhau nad yw defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn holiaduron niferus sy'n gofyn am wybodaeth debyg.